## DATGANIAD STRATEGAETH Y GRANT DATBLYGU DISGYBLION

*Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion ynghylch defnydd ein hysgol o'r GDD ar gyfer blwyddyn academaidd 2022 i 2023.*

*Mae'n amlinellu ein strategaeth, sut rydym yn bwriadu gwario'r cyllid yn y flwyddyn academaidd hon a'r effaith a gafodd gwariant y llynedd o fewn ein hysgol.*

### *Trosolwg Ysgolion*

| Manylion | Data |
|---|---|
| Enw'r ysgol | Ysgol Llangynnwr |
| Nifer y Disgyblion yn yr Ysgol | 318 |
| Cyfran (%) o ddisgyblion sy'n gymwys i'r GDD | 7% |
| Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn | Ebrill 2025 |
| Dyddiad y caiff ei adolygu | Ebrill 2026 |
| Awdurdodwyd y datganiad gan | Mr Aled Davies |
| Yn arwain ar y GDD | Mrs C Rh Thomas |
| Llywodraethwr sy'n arwain | Mrs Sarah Howells |

### Trosolwg Cyllid

| Manylion | Swm |
|---|---|
| Dyraniad cyllid GDD y flwyddyn academaidd hon | £21,850.00 |
| Llyfnhau | £0 |
| HPYaDd BC | £2,300.00 |
| **Cyfanswm cyllideb y flwyddyn academaidd hon** | £24,150.00 |

### Rhan A: Cynllun Strategaeth

### *Datganiad o Fwriad*

- *Gwell canlyniadau o ddisgyblion hPYaDd ac hPyaDd BC.*
- *Gwell cyrhaeddiad gwell o ddisgyblion hPYaDd ac hPyaDd BC.*
- *Mae disgyblion hPYaDd ac hPyaDd BC yn cael cefnogaeth ac ymyrraeth briodol er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu canlyniadau disgwyliedig.*

*Canlyniadau a fwriedir*

Mae hyn yn esbonio'r canlyniadau rydym yn anelu atynt **erbyn diwedd ein cynllun strategaeth presennol**, a sut y byddwn yn mesur a ydynt wedi'u cyflawni.

| Canlyniad a fwriedir | Meini prawf llwyddiant |
|---|---|
| Mwy o ecwiti i ddisgyblion hPYaDd drwy gynyddu mynediad i'r cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol drwy leihau'r effaith ariannol. | Mynediad i bob disgybl i bob ymweliad preswyl addysgol.<br>Pob disgybl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.<br>Pob disgybl yn cael mynediad at weithgareddau cwricwlaidd.<br>Bydd pob disgybl yn cael mynediad at fwyd. |
| Gwell canlyniadau i ddisgyblion hPYaDd ac hPyaDd BC. | Cynnydd mewn sgoriau o waelodlin ar ol cynnig cefnogaeth ac ymyraethau priodol. |
| Gwell iechyd a lles | Monitro lles disgyblion drwy Speakr, cyfnodau ‘gwirio dosbarth’, sesiynau ELSA a chefnogaeth i deuluoedd<br>lle bo hynny'n briodol. |
| Gwell sgiliau iaith a datblygiad lleferydd disgyblion hPYaDd ac hPyaDd BC. | Gwell iaith a sgiliau datblygu lleferydd a ddangosir<br>drwy sgoriau sgriniau manwl ChATT, wedi derbyn ymyrraeth gyda chynorthwyydd addysgu. |

**Gweithgarwch yn y flwyddyn academaidd hon**

Mae hyn yn rhoi manylion sut rydym yn bwriadu gwario ein GDD **y flwyddyn academaidd hon** i fynd i'r afael â'r heriau a restrir uchod.

| |
|---|
| Nodwch anghenion y disgyblion o fewn y grŵp hwn.<br><br>• Cynlluniwch yr ymyraethau sydd yn briodol i anghenion pob disgybl unigol.<br><br>• Tracio cynnydd y disgyblion yn yr ymyraethau gan adolygu priodoldeb ac |

| |
|---|
| effaith a diwygio os oes angen.<br><br>• Darparu adnoddau a hyfforddiant o ansawdd uchel i'r holl staff sy'n<br><br>ymwneud â darparu'r ymyraethau hyn<br><br>• Darparu ystod o ymyraethau priodol sydd a'u effaith wedi profi trwy ystod<br><br>o asesu ac sy'n gynaliadwy. |

**Dysgu ac addysgu**

| Gweithgaredd | Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn |
|---|---|
| Cymorth grŵp bach mewn rhifedd a llythrennedd. | Mae darparu staff addysgu ychwanegol i weithio gyda disgyblion mewn grŵp bach ar feysydd penodol o anhawster yn galluogi ymyrraeth wedi'i dargedu, sy'n benodol i anghenion disgyblion unigol |
| *Cymorth i ddisgyblion a lles teuluoedd* | Darparu aelodau o staff i ddarparu cwnsela i gefnogi lles disgyblion yn yr ysgol er mwyn gwella lles disgyblion gan ganolbwyntio ar yr |

| | |
|---|---|
| | anghenion a nodwyd. Darperir cymorth i deuluoedd trwy ein cyswllt teuluol sef ein CADY. Defnyddir hefyd i gyfeirio teuluoedd at wasanaethau cymorth ychwanegol. |

**Strategaethau ehangach (er enghraifft a lle bo hynny'n berthnasol, Iechyd a Lles, Cwricwlwm a Chymwysterau, Arweinyddiaeth a Chodi Dyheadau)**

| Gweithgaredd | Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn |
|---|---|
| Mwy o ecwiti drwy ddarparu cymorth ariannol pan fo' angen i leihau'r rhwystrau rhag dysgu a phrofiadau. | Mae angen yr un mynediad ar pob disgybl at weithgareddau a digwyddiadau allgyrsiol, er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr un cyfleoedd, profiadau a chyrraedd eu potensial. Mae hyn yn bwysig ar gyfer eu hymdeimlad o berthyn, dyheadau a chyfranogiad ym mywyd yr ysgol yn y dyfodol. |
| Cefnogaeth emosiynol i ddelio â phryder, straen a sefyllfaoedd bob dydd | Mae pob disgybl yn llenwi holiadur sy'n cynhyrchu sgôr. Os ydy'r sgôr <85, bydd yr athrawon dosbarth hefyd yn llenwi holiadur am y disgyblion (ac unrhyw ddisgyblion eraill y maen nhw'n eu gweld allai elwa o sesiynau ELSA) Mae cymorth yn cael ei roi i'r rhai mewn angen yn ôl y sgoriau hyn. |